# Pleidleisiau a Thrafodion - Y Cyfarfod Llawn

Lleoliad y cyfarfod:

**Y Siambr - Y Senedd/Zoom**

Dyddiad y cyfarfod:

Dydd Mawrth, 8 Rhagfyr 2020

Amser y cyfarfod: 13.30

Gellir gwylio'r cyfarfod ar Senedd TV yn:

http://senedd.tv/cy/11041

## 309(v6)

Cynhaliwyd y cyfarfod hwn ar ffurf hybrid, gyda rhai Aelodau yn Siambr y Senedd ac eraill yn ymuno drwy gyswllt fideo.

## 1 Cwestiynau i'r Prif Weinidog

Dechreuodd yr eitem am 13.30

Gofynnwyd yr 8 cwestiwn cyntaf. Gwahoddodd y Llywydd arweinwyr y pleidiau i ofyn cwestiynau i'r Prif Weinidog ar ôl cwestiwn 2.

## 2 Datganiad a Chyhoeddiad Busnes

Dechreuodd yr eitem am 14.31

## 3 Datganiad gan Weinidog yr Economi, Trafnidiaeth a Gogledd Cymru: Argymhellion Burns - Y Camau Nesaf

Dechreuodd yr eitem am 14.49

**Yn unol â Rheol Sefydlog 12.18, am 15.55 cafodd y cyfarfod ei atal dros dro gan y Llywydd.**

## 4 Datganiad gan Ddirprwy Weinidog yr Economi a Thrafnidiaeth: Diweddariad ar Dasglu'r Cymoedd

Dechreuodd yr eitem am 16.03

## 5 Gorchymyn Ardrethu Annomestig (Lluosydd) (Cymru) 2020 – Gohiriwyd

Gohiriwyd yr eitem hon

## 6 Rheoliadau Iechyd Planhigion (Coedwigaeth) (Diwygiadau Amrywiol) (Cymru) (Ymadael â'r UE) 2020

Dechreuodd yr eitem am 16.37

**NDM7498** Rebecca Evans (Gwyr)

Cynnig bod y Senedd, yn unol â Rheol Sefydlog 27.5:

1. Yn cymeradwyo bod y fersiwn ddrafft o Reoliadau Iechyd Planhigion (Coedwigaeth) (Diwygiadau Amrywiol) (Cymru) (Ymadael â'r UE) 2020 yn cael ei llunio yn unol â'r fersiwn ddrafft a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ar 17 Tachwedd 2020.

**Derbyniwyd y cynnig yn unol â Rheol Sefydlog 12.36.**

## 7 Cynnig Cydsyniad Deddfwriaethol ar Fil Marchnad Fewnol y Deyrnas Unedig

Dechreuodd yr eitem am 16.39

**Am 16.52, cafodd y trafodion eu hatal am bum munud gan y Dirprwy Lywydd oherwydd anawsterau technegol yn y Siambr. Am 16.57, cafodd y cyfarfod ei ailgynnull. Am 17.02, cafodd y cyfarfod ei atal am 25 munud, ac am 17.27, cafodd y cyfarfod ei ailgynnull. Am 17.30, cafodd y cyfarfod ei atal dros dro eto.**

**Am 17.45, cafodd y trafodion eu gohirio gan y Dirprwy Lywydd.**

**Caiff y cyfarfod ei ailgynnull am 12.30 dydd Mercher 9 Rhagfyr 2020.**

**Gohiriwyd y bleidlais ar y cynnig o dan yr eitem hon tan y Cyfnod Pleidleisio.**

**NDM7497** Jeremy Miles (Castell-nedd)

Cynnig bod y Senedd, yn unol â Rheol Sefydlog 29.6, yn cytuno y dylai Senedd y DU ystyried y darpariaethau ym Mil Marchnad Fewnol y Deyrnas Unedig i'r graddau y maent yn dod o fewn cymhwysedd deddfwriaethol Senedd Cymru.

Gosodwyd Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol yn y Swyddfa Gyflwyno ar 25 Medi 2020 yn unol â Rheol Sefydlog 29.2.

Bil Marchnad Fewnol y Deyrnas Unedig 2019-21 (Saesneg yn unig)

Cynhaliwyd pleidlais ar y cynnig:

| O blaid | Ymatal | Yn erbyn | Cyfanswm |
|---|---|---|---|
| 15 | 0 | 36 | 51 |

**Gwrthodwyd y cynnig.**

## Cynnig i atal y Rheolau Sefydlog dros droMotion

Dechreuodd yr eitem am 13.25

**NDM7500** Rebecca Evans (Gwyr)

Cynnig bod y Senedd, yn unol â Rheolau Sefydlog 33.6 a 33.8:

Yn atal Rheolau Sefydlog 12.20(i), 12.22 (i) a'r rhan honno o Reol Sefydlog 11.16 sy'n ei gwneud yn ofynnol bod y cyhoeddiad wythnosol o dan Reol Sefydlog 11.11 yn darparu'r amserlen ar gyfer busnes yn y Cyfarfod Llawn yr wythnos ganlynol, er mwyn caniatáu i NNDM7501 gael ei ystyried yn y Cyfarfod Llawn ddydd Mawrth, 8 Rhagfyr 2020.

**Derbyniwyd y cynnig yn unol â Rheol Sefydlog 12.36.**

## Cynnig Gweithdrefnol

Dechreuodd yr eitem am 12.36

Cynnig gweithdrefnol yn unol â Rheol Sefydlog 12.32 i ohirio'r eitem nesaf o fusnes tan ddydd Mercher, 9 Rhagfyr 2020

## 8 Dadl: Cyfyngiadau Coronafeirws Newydd

Cafodd yr eitem ei gohirio tan gyfarfod dydd Mercher 9 Rhagfyr 2020.

## 9 Dadl: Adolygiad Blynyddol Cydraddoldeb a Hawliau Dynol ar gyfer 2019-2020 - Gohiriwyd

Gohiriwyd yr eitem hon

## 10 Cyfnod pleidleisio

**Yn unol â Rheol Sefydlog 12.18, am 13.27 cafodd y cyfarfod ei atal dros dro i ganiatáu egwyl dechnegol cyn y cyfnod pleidleisio.**

Dechreuodd yr eitem am 13.30

## Crynodeb o Bleidleisiau

Daeth y cyfarfod i ben am 13.31 Dydd Mercher, 9 Rhagfyr 2020

**Cynhelir Cyfarfod Llawn nesaf y Senedd Dydd Mercher, 9 Rhagfyr 2020**